# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)1046(ESH) a gyhoeddwyd gan Leighton Andrews, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes, ar 18 Ionawr 2010

**At David Melding:**

Yn ystod y trafodaethau yn cyfarfod llawn a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2009 ynghylch datblygiadau carbon isel yn y sector adeiladu, rwy'n deall eich bod wedi mynegi pryderon ynghylch y rôl y mae colegau addysg bellach yn ei chwarae yn cefnogi'r agenda hwn.

Ar hyn o bryd, mae yna ddeunaw o golegau addysg bellach yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau adeiladu ar lefel Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol 1, 2 a 3. Yn ogystal, mae rhai o'r colegau yn darparu cyrsiau Diploma Cenedlaethol ac fel rhan o'r cwricwlwm, maent yn cynnwys adeiladu a'r amgylchedd, gwyddoniaeth a deunyddiau a ddefnyddir ym maes adeiladu a dylunio ym maes adeiladu a pheirianneg sifil. Mae sector y gwasanaethau adeiladu, sy'n cynnwys cyrsiau ar gyfer plymwyr, peirianwyr gwresogi a pheirianwyr awyru hefyd yn cael ei gefnogi gan ddeunaw o'n darparwyr dysgu addysg bellach ac 8 darparydd arall o fewn y sector preifat.

Mae pum coleg arall ar hyd a lled Cymru eisoes yn cynnig hyfforddiant mewn technolegau ynni adnewyddadwy. Dyma'r colegau: Coleg Sir Gâr, Coleg Llandrillo, Coleg Abertawe, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a Choleg Sir Benfro. Mae pob sefydliad wedi paratoi adnoddau hyfforddi i gyd-fynd â'r ffaith bod swyddi yn y maes amgylcheddol yn cynyddu. Mae'r colegau hyn yn gallu cynnig hyfforddiant pwrpasol sydd wedi'i achredu sy'n ymwneud ag ynni solar, ynni biomas, pympiau gwres, pŵer gan y gwynt, technoleg ffotofoltaïg a thechnoleg sy'n ymwneud â dŵr. Yn achos Coleg Llandrillo, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd gydag Academi Sgiliau Gwyrdd Nwy Prydain a fydd yn agor yn fuan yn Nhredegar i gynnig hyfforddiant allgymorth i gyflogai ac i isgontractwyr yng Ngogledd Cymru.

Er gwaetha'r dirywiad economaidd a'i effaith ar y sector adeiladu, mae hyfforddiant ar ffurf prentisiaethau o fewn y sector yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Adran hon. Mae ein menter Llwybrau at Brentisiaethau yn rhoi cyfle i ddysgwyr ddilyn cwrs hyfforddiant llawn amser yn y coleg am hyd at 12 mis, yn cynnig 900 o gyfleoedd dysgu ychwanegol newydd mewn lleoliadau ar hyd a lled Cymru er mwyn cefnogi'r sector adeiladu.

Hefyd, mae fy swyddogion yn gweithio gyda'r Cyngor Sgiliau Sector i ddatblygu ac i arbrofi ein rhaglenni cymwysterau a dysgu newydd sy'n cefnogi ein hagenda ar sgiliau carbon isel yng Nghymru. Bydd y rhaglenni hyn yn canolbwyntio ar osod technolegau carbon isel, gweithio gyda deunyddiau adeiladu a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau, lle mae'r ffocws ar wella sgiliau presennol gweithle'r sector adeiladu ond ar yr un pryd, ychwanegu gwerth at raglenni prentisiaethau traddodiadol ar gyfer newydd-ddyfodiaid.